



Gwasanaethydd Duw

Pedro Ballester

GWEDDI

ar gyfer defod breifat

O Dad Nefol, fe roddaist i'th fab Pedro ffydd dwfn a llawen, cariad dros y Groes, ac eiddgarwch i ddod a'i ffrindiau yn agosach at Grist. Helpa finnau hefyd i gynnig fy ngwaith, fy llawenydd a'm dioddefaint er lles yr Eglwys ac er iachawdwriaeth pob un. Dyro drwy weddïau Pedro beth rwyf nawr yn gofyn amdano (mynegwch eich deisyfiad yma) a gwna i fi dyfu mewn ffydd a chariad at Iesu bob diwrnod, gan ei wneud Ef, gyda chymorth ein Harglwyddes, yn ganolbwynt fy mywyd a fy nghariad. Amen.

Ein Tad. Henffych well, Fair. Gogoniant i'r Tad.

Yn unol â dedfrydau'r Pab Urbanus VIII, datganwn nad oes bwriad rhagweld dyfarniad yr Eglwys mewn unrhyw ffordd, ac nad oes bwriad defnyddio'r weddi hon yn gyhoeddus.

Ganwyd Pedro Ballester ym Manceinion ar Fai'r 22ain 1996. Yr hynaf o dri brawd, cafodd ei fagu mewn teulu Catholig llawen yng Ngogledd Lloegr. O oedran ifanc roedd ei natur twymgalon a'i haelioni yn amlwg. Bu'n adnabyddus am fod yn fyfyrwr gweithgar, ac yn ffrind da i bawb.

Yn ei arddegau hwyr, cafodd ei annog gan ddyfnder ei ffydd i gysegru ei fywyd i Dduw trwy Opus Dei, gan geisio caru Iesu Grist uwchlaw popeth drwy ei astudiaethau, ei gyfeillgarwch a'i fywyd cyffredin. Fel aelod numerary o Opus Dei, derbyniodd Pedro y rhodd o ddibriodrwydd apostolaidd er mwyn ymroi yn llwyr i weinyddu i ymgymeriadau apostolaidd a ffurfiant aelodau eraill y Breladwriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2014, yn fuan wedi iddo ddechrau yn y brifysgol, cafodd ddiagnosis o ganser datblygiedig y pelfis. Gwelodd Pedro ei salwch fel cyfle i gofleidio Croes Iesu, a cynigodd ei ddioddefaint yn llawen dros y Pab, yr Eglwys a'r holl eneidiau. Fe ddatganodd faint mor ffodus yr oedd, ac ystyriodd ei fod ym mreichiau y Forwyn Sanctaidd. Trwy'r cadernid a'r llonyddwch y dangosodd wrth oddef ei salwch hyd y diwedd, ysbrydolodd nifer o bobl i ddyfod yn agosach at Dduw a'r Eglwys.

Cyflwynodd Pedro ei enaid i Dduw ar Ionawr y 13eg 2018. Ers union ddiwrnod ei farwolaeth, mae adroddiadau wedi bod o ffafrau a dderbyniwyd drwy ei eiriolaeth. Cychwynwyd yr Achos dros ei Ganoneiddio yn Esgobaeth Salford, Lloegr.

Gofynnir i'r rhai sy'n derbyn ffafrau i hysbysu Preladwriaeth Opus Dei, 4 Orme Court, Llundain, W2 4RL. Eboost: ocs.uk@opusdei.org

Gwybodaeth bellach: pedroballester.org.uk

Gyda chymeradwyaeth eglwysig.